# CYNGOR SIR PENFRO – ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

***Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw fanwl gyfatebol cyn ac wrth gwblhau'r asesiad. RHAID i asesiad effaith integredig gael ei gwblhau ar gyfer POB adroddiad cyngor / cabinet sy'n argymell penderfyniad ffurfiol yn ymwneud â'r canly***

- Newidiadau sylweddol i ddarpariaeth gwasanaeth
- Gwariant neu arbedion sylweddol
- Unrhyw gamau gweithredu sy'n arwyddocaol o ran eu heffeithiau ar gymunedau lleol

| Swyddog Arweiniol | Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth | Gwasanaeth / Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Sarah Edwards | Jon Haswell | Cyllid a Gwasanaethau Refeniw | 30 Mehefin 2026 |

| **Teitl yr adroddiad / prosiect:** | Ymgynghoriad: Cyfraddau premiwm y dreth gyngor ar gyfer 2027–2028 |
|---|---|

| **Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** |
|---|
| • Cyfraddau priodol ar gyfer premiymau y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag ar gyfer 2027–2028. Gall premiymau amrywio o 0% i 300%.<br>• Defnyddio unrhyw gyllid a godir o'r premiymau uchod. Bydd hyn yn dibynnu ar y cyfraddau premiwm a bennir, lefel gyffredinol y dreth gyngor, a nifer yr eiddo. Fel arwydd, mae'r premiymau ar hyn o bryd yn codi tua £9 miliwn bob blwyddyn.<br><br>Mae'r cynnig a aseswyd ar y cam ymgynghori. Mae'r penderfyniad terfynol i fod i gael ei wneud gan y cyngor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2026. Mae canllawiau statudol y mae'n rhaid i'r cyngor eu hystyried, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2023: Treth gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi [HTML] \| LLYW.CYMRU.<br><br>Mae'r cyngor wedi gosod cyfraddau premiwm y dreth gyngor yn weithredol o 1 Ebrill 2017. Yn ystod y cyfnod hwn, bu nifer o newidiadau deddfwriaethol:<br>• O fis Ebrill 2023. Y gallu i osod premiwm y dreth gyngor uchaf o 300%.<br>• O fis Ebrill 2023. Cynyddodd y trothwy o ran y nifer leiaf o ddiwrnodau y gellir rhentu eiddo er mwyn iddo fod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig eiddo hunanddarpar o 70 diwrnod i 182 diwrnod, ynghyd â chynnydd o ran y nifer lleiaf o ddiwrnodau y gellir rhentu eiddo. |

- O fis Ebrill 2026. Diwygiadau i sut y mae’r trothwy 182 diwrnod yn cael ei gyfrifo, trwy ddefnyddio cyfartaleddu aml-flwyddyn o’r 182 diwrnod, a lwfans elusennol 14 diwrnod: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio’r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2026.

Ym mis Ionawr 2026, mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg ar y pryd, Mark Drakeford AS, fwriad i wneud y canlynol:
*Deddfu ar gyfer eithriad statudol rhag talu premiwm y dreth gyngor, er mwyn sicrhau y caiff y cynnig ar gyfer pontio fesul cam ei gymhwyso yn gyson yn genedlaethol ledled Cymru.*

Penderfyniad i’w wneud gan lywodraeth bresennol Cymru fydd cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth o’r fath ai peidio. Gan fod posibilrwydd o esemptiad statudol, rydym wedi penderfynu peidio â chynnwys cwestiynau ynghylch defnyddio disgresiwn y cyngor fel rhan o’r ymgynghoriad hwn. Hyd yn hyn, nid yw’r cyngor wedi defnyddio ei ddisgresiwn i roi esemptiad ar gyfer premiymau y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi os yw eiddo’n trosglwyddo o ardrethi annomestig eiddo hunanddarpar (a elwir hefyd yn lety gwyliau) i’r dreth gyngor.

**Mae’r ddogfen hon wedi’i rhannu fel a ganlyn:**

**Adran 1** Ymgynghori ac ymgysylltu
**Adran 2** Data a thystiolaeth

**Mae’r adrannau canlynol yn gofyn i chi asesu effaith eich cynnig o ystyried:**

**Adran 3** Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
**Adran 4** Amcanion llesiant Cyngor Sir Penfro
**Adran 5** Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
a’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
**Adran 6** Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
**Adran 7** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6
**Adran 8** Datgarboneiddio a newid hinsawdd – Cyngor Sir Penfro sy’n garbon sero net erbyn 2030
**Adran 9** Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Adran 1 – Ymgynghori ac ymgysylltu**

Rhowch fanylion y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd i gefnogi'r cynnig, gan ystyried egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, sy'n nodi mai dim ond pan fydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu bodloni y mae ymgynghoriad yn ddilys:

1. Mae'r cynigion mewn cyfnod ffurfiannol – ni ddylai penderfyniadau fod wedi'u gwneud na'u pennu ymlaen llaw
2. Mae digon o wybodaeth i roi 'ystyriaeth ddeallus' – rhaid i wybodaeth sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad fod ar gael, yn hygyrch ac yn hawdd ei dehongli fel bod ymgyngoreion yn gallu rhoi ymateb gwybodus
3. Mae digon o amser i ystyried ac ymateb – rhaid i'r cyfnod ymgynghori fod yn ddigon hir i roi digon o gyfle i ymgyngoreion gymryd rhan

Rhaid ystyried ymatebion i ymgynghoriadau cyn gwneud penderfyniad – a allwch chi ddarparu tystiolaeth o hyn?

Mae'r ymgynghoriad wedi ei gynllunio i gychwyn ar 30 Mehefin a dod i ben ar 10 Awst 2026**.** Bydd hyn yn cael ei gynnal yn adran Dweud Eich Dweud ar wefan y cyngor.

Mae'r cyngor wedi ymgynghori ar gyfraddau premiwm ail gartrefi a chartrefi gwag bob blwyddyn (ac eithrio 2020 oherwydd COVID-19). Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi denu nifer fawr o ymatebwyr, yn aml dros 2,000, ac ar un achlysur bron i 3,000. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei hyrwyddo'n eang gan gynnwys defnyddio'r opsiwn Hysbysu (sy'n gysylltiedig â Fy Nghyfrif) yn ogystal â thrwy ddatganiadau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol.

Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi tueddu i gynhyrchu canlyniadau cyson. Er enghraifft:

| **Perchnogion ail gartrefi yn ystyried mai'r premiwm mwyaf priodol yw …** | **Canlyniadau 2025** | **Canlyniadau 2024** | **Canlyniadau 2023** | **Prif negeseuon** |
|---|---|---|---|---|
| Dim premiwm | 47% | 43% | 43% | • Er bod canran y perchnogion ail gartrefi nad ydynt eisiau premiwm wedi cynyddu ychydig dros y tair blynedd diwethaf, yn y blynyddoedd blaenorol roedd tua 50% o berchnogion ail gartrefi yn ffafrio premiwm o 50% o leiaf.<br>• Ychydig iawn o berchnogion ail gartrefi oedd yn ffafrio premiwm o fwy na 100%. |
| 50% yn uwch | 29% | 24% | 31% | |
| 100% yn uwch | 20% | 27% | 24% | |
| 150% yn uwch | 3% | 3% | 1% | |
| 200% yn uwch | 0% | 3% | 0% | |
| 250% yn uwch | 0% | 0% | 0% | |
| 300% yn uwch | 0% | 0% | 0% | |

Mae canlyniadau wedi cael eu hadrodd amdanynt i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y cabinet, a'r cyngor, ac maent ar gael ar wefan y cyngor fel rhan o bapurau'r cyngor lle cytunwyd ar gyfradd y flwyddyn honno (mis Hydref 2025, mis Hydref 2024, a mis Hydref 2023). Cafodd y canlyniadau eu croesdablu yn ôl nodwedd warchodedig a sgiliau ieithyddol yr ymatebwyr.

Bydd ymgynghoriad eleni yn defnyddio holiadur tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Y prif wahaniaeth yw hepgor cwestiwn ynghylch defnyddio disgresiwn (gweler yr adran uchod).

**Adran 2 – Data a thystiolaeth**

Rhowch fanylion y data a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r cynnig, e.e. adroddiadau, data lleol neu genedlaethol, adborth defnyddwyr gwasanaeth, canlyniadau ymgynghoriadau blaenorol, cynlluniau busnes ac ati. (Dylid ychwanegu tystiolaeth benodol sy'n ymwneud â gofynion deddfwriaethol at yr adrannau perthnasol 3 i 9 isod.)

Defnyddiwyd data gweinyddol o gronfa ddata'r dreth gyngor, ac o ddata ardrethi annomestig eiddo hunanddarpar, i olrhain newidiadau yn nifer yr ail gartrefi, cartrefi gwag, a llety gwyliau ers rhoi premiymau y dreth gyngor ar waith. Mae hefyd yn bosibl olrhain sut y mae eiddo unigol wedi newid i fod yn ail gartrefi, cartrefi gwag, llety gwyliau ac ati. Mae'r data hyn ar gael ar lefel gymunedol, a gellir eu cysylltu â nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal.

Mae data ar y farchnad dai leol ar gael. Adroddir ar rywfaint o hyn (megis digartrefedd) bob chwarter drwy drefniadau rheoli perfformiad y cyngor. Mae data eraill wedi eu caffael a'u dadansoddi o ffynonellau allanol (megis data ynghylch prisiau a dalwyd am dai) neu ddata ynghylch treth trafodiadau tir uwch. Mae monitor tai Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol.

Mae gwybodaeth am y Gymraeg ar gael o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y Cyfrifiad. Gan fod ail gartrefi wedi eu crynhoi mewn cymunedau penodol, gwybodaeth y Cyfrifiad sydd orau i asesu effaith. Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi gofyn am sgiliau Cymraeg yr ymatebwyr, yn ogystal â'u barn ar effaith y premiwm ar y Gymraeg, ac y mae hyn wedi cynhyrchu tystiolaeth.

Mae polisi'r cyngor ar bremiymau y dreth gyngor wedi ei lywio gan weithgor o aelodau sy'n wleidyddol gytbwys sydd wedi meithrin cryn dipyn o arbenigedd ar y cyd ar bremiymau y dreth gyngor, yn ogystal â mesurau treth cysylltiedig, megis trothwyon ar gyfer statws eiddo hunanddarpar ardrethi annomestig, trethi eraill ar eiddo nad ydynt yn unig breswylfa neu brif breswylfa unigolyn, yn ogystal â gwybodaeth am dwristiaeth a'r farchnad dai.

**Adran 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r canllawiau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodau llesiant a datblygu cynaliadwy:
https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-yr-hanfodion

Pa rai o'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt neu'n cyfrannu at eu cyflawni?

| **National Well-being Goal** | **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith – rhowch esboniad** |
|---|---|---|---|
| • Cymru lewyrchus | | Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol fod canfyddiad bod gan y premiwm ail gartrefi presennol o 125% y potensial i gael effaith negyddol ar dwristiaeth. Mae llety hunanddarpar (llety gwyliau ac ail gartrefi i'w rhentu) yn cyfrif am ryw 25% o leoedd gwely. Gweler Atodiad B. | |
| • Cymru gydnerth | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| • Cymru iachach | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| • Cymru sy'n fwy cyfartal | Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y premiymau ail gartrefi a godir mewn blynyddoedd blaenorol yn lleihau nifer yr ail gartrefi / llety gwyliau, er gan nifer fechan yn unig. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod prisiau tai yn gostwng mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o ail gartrefi, o'u cymharu â gweddill Sir Benfro.<br><br>Drwy Cymorth Prynu Sir Benfro, mae rhai unigolion bellach yn gallu cael mynediad at gyllid morgais na fyddent wedi gallu gwneud hynny'n flaenorol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dim ond 16% o'r holl gartrefi gwag sy'n rhwym wrth y premiwm. | | |
| • Cymru o gymunedau cydlynus | Gweler "gwybodaeth ategol". Ar draws holl gymunedau Sir Benfro, bu gostyngiad o 0.12% mewn un flwyddyn yn nifer y cartrefi heb breswylwyr arferol, sy'n awgrymu bod y premiymau yn dechrau annog perchnogion adeiladau i flaenoriaethu unig ddefnydd / prif ddefnydd dros ddefnyddiau eraill. | | |
| • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Yn seiliedig ar ymgynghoriadau blaenorol, nid oes fawr ddim gwahaniaethau rhwng barn yr ymatebwyr sy'n gallu siarad Cymraeg a'r rhai na allant. Ychydig o wahaniaeth barn a geir rhwng unigolion sy'n byw mewn cymunedau â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt.<br><br>Gweler "gwybodaeth ategol"– adran y Gymraeg – nid oes perthynas glir rhwng cyfran yr ail gartrefi / llety gwyliau mewn cymuned a'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>Cymharol fach yw'r gwahaniaeth rhwng gallu ymatebwyr sy'n berchnogion ail gartrefi neu'n berchnogion llety gwyliau i siarad Cymraeg a'r rhai sy'n unig breswylwyr / prif breswylwyr.<br><br>Mae'n amlwg o'r sylwadau bod rhai ymatebwyr o'r farn bod premiwm uwch ar ail gartrefi yn angenrheidiol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae eraill yn dadlau bod cyfraddau uwch yn niweidiol i'r Gymraeg. | | . |
| • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | | Annhebygol o fod yn effaith |

**Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?**

<u>Egwyddor datblygu cynaliadwy</u>

Mae’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu, wrth wneud penderfyniadau, bod angen i’r cyngor ystyried yr effaith y gallai’r penderfyniadau hyn ei chael ar bobl sy’n byw yng Nghymru yn y dyfodol drwy ystyried y pum ffordd ganlynol o weithio:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithredu
- Cynnwys pobl

Amlinellwch sut rydych chi wedi ystyried pob un o’r rhain wrth ddatblygu eich cynnig.

| **Ffyrdd o weithio** | **Sut ystyriwyd hyn wrth ddatblygu eich cynnig?** |
|---|---|
| Hirdymor | Mae’r polisi wedi ei lywio gan y newid hirdymor o ran demograffeg (llai o breswylwyr arferol mewn cymunedau arfordirol, llai o bobl iau). Er nad ail gartrefi yw’r unig ffactor sy’n sbarduno’r newid hwn, mae mwy o ail gartrefi mewn ardaloedd arfordirol. |
| Atal | Nod y polisi yw sicrhau bod digon o alw am wasanaethau cymunedol mewn ardaloedd arfordirol y tu allan i’r prif dymor twristiaeth er mwyn i’r gwasanaethau hyn allu parhau. Drwy sicrhau tai fforddiadwy mewn cymunedau, mae gan y polisi’r potensial i gael effaith gadarnhaol ar hyn. |
| Integreiddio | Mae’r papurau cefndir yn cyfeirio at strategaethau tai ehangach sydd wedi eu cynllunio i gynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy. |
| Cydweithredu | Mae tua £3 miliwn o gyllid a godwyd drwy’r premiwm wedi ei ddefnyddio i gefnogi ymddiriedolaeth tir cymunedol sy’n gweithio mewn partneriaeth ag Ateb i ddatblygu tai fforddiadwy yn Solfach. Drwy Gronfa Gwella Sir Benfro, mae grantiau wedi cael eu dosbarthu i amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector. |
| Cynnwys pobl | Mae’r ymgynghoriad hwn yn gyfle i ofyn am farn unigolion ar y lefel fwyaf priodol ar gyfer premiymau y dreth gyngor. |

**Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu’r wybodaeth uchod**

| **Adran 4 – Amcanion llesiant Cyngor Sir Penfro**<br><br>O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i gyhoeddi amcanion llesiant. Mae ein strategaeth gorfforaethol yn amlinellu amcanion llesiant y cyngor.<br><br>A ydyw eich cynnig yn helpu i gyflawni unrhyw un o amcanion llesiant y cyngor? A fydd ganddo effaith gadarnhaol neu negyddol? | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan llesiant** | **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith – rhowch esboniad** |
| Ein Dyfodol – galluogi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc, wrth eu cyfarparu â sgiliau ar gyfer y dyfodol | Mae cyllid a godir gan y polisi yn cael ei ddefnyddio o fewn ysgolion. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr wedi tueddu i ostwng yn gyflymach mewn ardaloedd arfordirol o'u cymharu â threfi, ond mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn gostwng ar draws Sir Benfro gyfan.<br>Mae gan gyfraddau uwch o bremiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi y potensial i leihau nifer y cartrefi nad ydynt yn cael eu defnyddio fel prif breswylfeydd, a byddant yn tueddu i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy mewn ardaloedd arfordirol gan ehangu'r dewis tai i deuluoedd pobl ifanc. Fodd bynnag, bydd yr effaith hon dros y tymor hir. | | |
| Ein Lle – lleoedd llewyrchus, gydag amgylcheddau glân, diogel a chynaliadwy, lle gall pobl fyw'n dda a ffynnu | Mae'r polisi yn lleihau nifer y tai nad oes ganddynt breswylydd arferol. | | |
| Ein Cymunedau – gofalu am bobl, a galluogi cymunedau gweithgar, dyfeisgar a chysylltiedig | | | Effaith gyfyngedig |
| Ein Cyngor – cyngor sy'n gynaliadwy yn ariannol, sydd wedi'i lywodraethu'n dda, a | Nid codi incwm yw diben y polisi, ond cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd premiymau y dreth gyngor yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| chanddo weithlu sy'n gallu cefnogi'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu | cyfrannu tua £7.7 miliwn at gyllideb y cyngor sy'n ymwneud â thai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol. | | |
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** | | | |
| | | | |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran 5 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)**<br><br>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Gall fod gan unigolion fwy nag un nodwedd warchodedig.<br><br>Disgrifiwch unrhyw effeithiau ar y grwpiau canlynol: | | | |
| **Protected Characteristic** | **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith – rhowch esboniad** |
| Oedran | | | Yn seiliedig ar ymgynghoriad 2025, mae perchnogion ail gartrefi a pherchnogion llety gwyliau yn fwy tebygol o fod yn bobl hŷn a thros 65 oed (48% o berchnogion ail gartrefi, a 38% o berchnogion llety gwyliau).<br><br>Mae barn unigolion ar y dreth gyngor ar ail gartrefi yn amrywio ychydig yn ôl oedran. Mae hyn yn fwy amlwg i unigolion sy'n unig breswylwyr / prif breswylwyr. I unigolion o dan 45 oed, ac o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer pob oedran, roedd mwy o unigolion yn ffafrio dim premiwm, yn ogystal â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | phremiwm o 300% (h.y. roedd y safbwyntiau wedi hollti barn yn fwy). |
| Anabledd | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| Ailbennu rhywedd | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| Hil | | | Annhebygol o fod yn effaith. Lle nodwyd hynny, roedd 3.4% o'r ymatebwyr o grŵp ethnig lleiafrifol. Roedd gan ymatebwyr o ethnigrwydd gwyn / nad yw'n wyn farn debyg ar y premiwm. |
| Crefydd neu gred | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| Rhyw | | | Annhebygol o fod yn effaith. Roedd 46% o'r ymatebwyr yn fenywod. Roedd benywod a oedd â buddiant fel unig breswylydd / prif breswylydd ychydig yn fwy tebygol o ffafrio cyfraddau treth gyngor is ar gyfer ail gartrefi. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | | | Annhebygol o fod yn effaith |

| |
|---|
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** |
| Amherthnasol. |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** |
| Mae data wedi eu casglu o ymgynghoriadau blaenorol. |
| Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn y gymdeithas. Mae anghydraddoldeb canlyniad yn ymwneud â gwahaniaethau mesuradwy mewn canlyniad rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae canllawiau manwl ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.<br><br>Disgrifiwch yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael. | | |
| **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith – rhowch esboniad** |
| Mae gan gyfraddau uwch o dreth gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag y potensial i gynyddu'r nifer o dai fforddiadwy drwy annog perchnogion i osod eiddo ar rent am gyfnod hir, eu rhoi ar werth, neu drwy annog unigolion i beidio â phrynu eiddo fel ail gartrefi.<br><br>Drwy gyfarwyddyd gweinidogol, mae cyllid a godwyd o bremiymau y dreth gyngor mewn blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddyrannu tuag at raglen tai fforddiadwy y cyngor. | Mae'n amlwg o'r sylwadau a wnaed gan rai perchnogion ail gartrefi (yn enwedig y rhai a etifeddodd eiddo) y gallai fod ganddynt incwm gwario cymharol fach.<br><br>Dywedodd yr un gyfran o berchnogion tai gwag fod ganddynt incwm isel fel unig breswylwyr / prif breswylwyr yn ymgynghoriad 2025. | Er bod llawer o ymatebwyr wedi codi materion ynghylch fforddiadwyedd y premiwm, diben y premiwm yw annog perchnogion ail gartrefi i newid sut y maen nhw'n defnyddio eu heiddo, fel ei fod yn cyfrannu at y cyflenwad tai ehangach. O ystyried y gymhareb prisiau tai i incwm, os / pan ddaw tai ar y farchnad, efallai na fyddant yn fforddiadwy i unigolion ag incwm isel. |
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** | | |
| | | |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** | | |
| | | |

| |
|---|
| **Adran 6 – Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**<br><br>Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ystyried yr effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Disgrifiwch yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael. |

| Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol | Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol | Dim effaith – rhowch esboniad |
|---|---|---|
| Mae diben y ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i'r cyngor godi premiymau y dreth gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag fel a ganlyn:<br>• **Adfer cartrefi gwag hirdymor i'w defnyddio eto** er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy.<br>• **Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol.**<br>• **Cymorth i gymunedau lleol:** Gall mesurau sydd â'r nod o leihau nifer yr ail gartrefi neu'r cartrefi gwag hirdymor helpu i gynnal cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad bob dydd drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn debygol o fod yn gyson â chyfraddau premiymau uwch.<br>• **Cadw trigolion sy'n siarad Cymraeg:** Mae gwella mynediad at dai fforddiadwy i bobl leol yn cynorthwyo teuluoedd iau a thrigolion o oedran gweithio, gan helpu i gynnal proffil ieithyddol cymunedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd hynny sy'n ardaloedd sensitif yn ieithyddol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, e.e. gogledd Sir Benfro. Canfu data o ymgynghoriad treth gyngor 2025 fod 41% o breswylwyr arferol yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â 22% o berchnogion ail gartrefi, sy'n wahaniaeth o 45%.<br>• **Cyd-fynd â Chymraeg 2050:** Mae polisïau sy'n cryfhau cydlyniant cymunedol a sefydlogrwydd poblogaeth yn cynnal bywiogrwydd hirdymor y Gymraeg yn anuniongyrchol. | Mae potensial i'r polisi gael effaith negyddol os gosodir cyfradd isel iawn sy'n annog twf yn nifer yr ail gartrefi. Fodd bynnag, mae premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi yn un o nifer o fesurau cyllidol sy'n annog unigolion i beidio â newid eiddo yn ail gartrefi, gan gynnwys treth enillion cyfalaf a threth trafodiadau tir uwch. Mae newidiadau i'r trethi hyn y tu hwnt i reolaeth y cyngor. | • **Natur gyllidol y polisi:** Offerynnau ariannol yn bennaf yw premiymau y dreth gyngor, ac nid ydynt yn rheoleiddio defnydd iaith yn uniongyrchol.<br>• **Cymhwyso premiymau y dreth gyngor yn gyffredinol:** Mae'r premiymau yn berthnasol yn gyfartal i gymunedau â chyfrannau uchel ac isel o siaradwyr Cymraeg.<br>• **Ychydig iawn o berthynas sydd rhwng siaradwyr Cymraeg a chymunedau â chanrannau uchel o ail gartrefi.** Gweler y testun yn "gwybodaeth ategol". Mae'n debygol y bydd y polisi, yn seiliedig ar safbwyntiau'r ymatebwyr, yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol (nid oes llawer o wahaniaeth yng ngallu perchnogion ail gartrefi a'r unig breswylwyr / prif breswylwyr a ymatebodd i siarad Cymraeg). Mae rhai cymunedau sydd â chanrannau uchel o ail gartrefi mewn cymunedau sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg – nid yw eraill. Yn gyffredinol, mae cymunedau sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod â chyfrannau cymharol isel o ail gartrefi.<br>• **Mae pobl sy'n symud yn barhaol i gymunedau yn Sir Benfro** sydd â lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na pherchnogion ail gartrefi, ond maent yn dal yn llai tebygol o siarad Cymraeg nag |

| | | |
|---|---|---|
| | | unigolion nad oedd wedi symud. Mae hyn yn awgrymu, er y gallai'r premiwm ail gartref fod yn effeithiol wrth arafu'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau (o'i gymharu ag effaith fwy difrifol ail gartrefi), na fydd y polisi ar ei ben ei hun yn diogelu'r Gymraeg. Mae data mudo Cyfrifiad 2021 ar gyfer cymunedau lle mae canrannau uwch o unigolion yn siarad Cymraeg yn dangos y canlynol: Roedd gan 49% o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg os **nad oedd** yr aelwyd wedi symud yn y flwyddyn flaenorol, ac roedd gan 39% o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg os **oedd** yr aelwyd wedi symud yn y flwyddyn flaenorol, h.y. gwahaniaeth o 20%. |

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar y Gymraeg yn dod i'r casgliad canlynol:

- Bod gan yr ymgynghoriad ar bremiwm y dreth gyngor y potensial **i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith yn Sir Benfro mewn ffordd gadarnhaol.**
- Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol uniongyrchol ar y Gymraeg yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Mae unrhyw effeithiau negyddol posibl **yn anuniongyrchol, a gellir eu rheoli** drwy fesurau lliniaru priodol.

**Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?**

Er mwyn lleihau risgiau a chynyddu effeithiau cadarnhaol, dylid mabwysiadu'r mesurau canlynol:

Byddwn yn sicrhau bod yr **holl ddeunyddiau ymgynghori** ar gael ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r un amlygrwydd. Gall ymatebwyr ymateb yn yr iaith o'u dewis.
Byddwn yn monitro ymatebion i ymgynghoriadau yn ôl iaith (pan fo'n briodol ac yn cydymffurfio â rheoliadau diogelu data) i nodi unrhyw fylchau yn y broses ymgysylltu, a nodi unrhyw themâu fel rhan o ddadansoddiad o ymatebion.
Ystyriwch **gynaliadwyedd ieithyddol hirdymor cymunedau** wrth ddadansoddi deilliannau ymgynghoriadau.
Gweler y adrannau uchod ac isod.

**Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod**

**Data Cyfrifiad Sir Benfro**

Yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad, gwnaeth cyfanswm poblogaeth Sir Benfro gynyddu dim ond ychydig dros 0.8% rhwng 2011 a 2021, sef cynnydd o ryw 900. Fel sy'n gyffredin â llawer o awdurdodau lleol gwledig eraill, rhwng 2011 a 2021 bu cynnydd yng nghyfran y bobl hŷn, a gostyngiad yn nifer y bobl iau.

Gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro 2% o 19.2% yn 2011 i 17.2% yn 2021, ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (17.8%). Dyma oedd yr ail ostyngiad mwyaf ar y cyd, gyda'r gostyngiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin gyfagos. Ar draws Cymru, gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg o 19.0% i 17.8%.

Yn 2021, roedd ychydig o dan 2,200 yn llai o drigolion Sir Benfro yn siarad Cymraeg (dros dair oed) o'i gymharu â 2011. Cafwyd cynnydd o 4,000 yn nifer y bobl nad oeddent yn siarad Cymraeg.


Mae'r map (map1) yn dangos bod llawer o ogledd Sir Benfro, ac yn enwedig gogledd-ddwyrain Sir Benfro, yn gadarnle i'r Gymraeg.


Mae Cymraeg 2050 yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bywyd bob dydd o fewn y gymuned. Mae'r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd neu sensitifrwydd ieithyddol wedi bod yn rhan o'r drafodaeth am gynllunio ieithyddol yng Nghymru ers bron i 20 mlynedd, a chyfeirir ato yn adroddiadau diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a Llywodraeth Cymru [1] [2]. Mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is â 40% neu'n uwch o boblogaeth yr ardal sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynnwys Crymych (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1 a 2), Clydau, Dinas, Cilgerran, Maenclochog (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1 a 2), Llandudoch, a Threfdraeth.

| **Map 1:** 2021 – canran y boblogaeth 16 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg | **Map 2:** Gwahaniaeth pwynt canran yn y gallu i siarad Cymraeg ymhlith y boblogaeth 16 oed a throsodd yn 2021 o'i gymharu â 2011 |
|---|---|

[1] Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg

[2] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg






Mae’r defnydd o’r Gymraeg yn amrywio o un ardal i’r llall. Mae’r mapiau hyn yn dangos bod nifer o gymunedau lle bu twf cymedrol rhwng 0.6% a 2.7% (ardaloedd glas ar Fap 2) yng nghyfran y boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg yn ne Sir Benfro. Mae canran y boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg yng ngogledd Sir Benfro wedi tueddu i ostwng.

**Adran 7 – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6**

O dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i’r cyngor geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a, thrwy wneud hynny, rhaid inni hefyd geisio hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

| A ydyw’r cynnig yn effeithio ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau? | **Ydyw** | | **Noac ydyw** | |
|---|---|---|---|---|

**Os ydyw, beth yw effaith ddisgwyliedig y cynnig ar fioamrywiaeth? Rhowch esboniad**

| Wedi ei chynnal | Wedi ei gwella |
|---|---|
| Mae cyllid a godir drwy’r polisi yn cael ei ddefnyddio i hwyluso’r gwaith o adeiladu tai mwy fforddiadwy. Bydd yr effaith ar fioamrywiaeth yn cael ei rheoli drwy’r broses gynllunio defnydd tir yn ardaloedd cynllunio Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae gan y system gynllunio fesurau diogelu i reoli’r effaith bosibl ar fioamrywiaeth drwy amodau cynllunio. Oherwydd yr angen i ddangos niwtraliaeth o ran | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| maethynnau, mae nifer o ddatblygiadau tai sylweddol yn Sir Benfro wedi eu gohirio. | |

| |
|---|
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** |
| Gweler uchod. |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** |
| |

**Adran 8 – Datgarboneiddio a newid hinsawdd – Cyngor Sir Penfro sy'n garbon sero net erbyn 2030**

Ym mis Mai 2019, pleidleisiodd y cyngor i ddatgan argyfwng hinsawdd ac, ym mis Gorffennaf yn yr un flwyddyn, pleidleisiodd i ddatblygu cynllun gweithredu i lywio Cyngor Sir Penfro tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun gweithredu ar gael ar wefan y cyngor.

Pa effeithiau fydd gan y cynnig ar ymrwymiad y cyngor i ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030?

| Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol | Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol | Dim effaith – rhowch esboniad |
|---|---|---|
| Annhebygol o fod yn effaith sylweddol. Fodd bynnag, yn seiliedig ar gyfraddau uwch o bremiymau y dreth gyngor yn lleihau nifer yr ail gartrefi, mae potensial am effaith gadarnhaol gan fod perchnogion ail gartrefi yn debygol o ddefnyddio mwy o garbon wrth redeg dau gartref a theithio rhyngddynt. | Mae'n annhebygol y bydd effaith sylweddol, ond mae cysylltiad rhwng ail gartrefi a diwydiant twristiaeth Sir Benfro (mae mwyafrif yr ymwelwyr o Gymru / y Deyrnas Unedig). Mae hyn yn cystadlu â chyrchfannau gwyliau y mae angen hedfan iddynt (carbon uwch). Gall cyfradd premiwm uwch leihau argaeledd yn Sir Benfro, ond mae ffactorau eraill ar waith (megis y trothwy 186 diwrnod ar gyfer ardrethi annomestig eiddo hunanddarpar) | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn ogystal â ffactorau allanol sy'n effeithio ar bris hediadau. | |

| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** |
|---|
| Amherthnasol |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** |
| Gweler "gwybodaeth ategol". |

**Adran 9 – Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Mae gan y cyngor rwymedigaeth gyfreithiol o dan y ddyletswydd uchod i ystyried effaith penderfyniadau sy'n effeithio ar aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog neu sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog, wrth gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd, tai ac addysg. Ym mis Medi 2024, dyfarnwyd Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn i Gyngor Sir Penfro, gan dynnu sylw at ymrwymiad yr awdurdod i gefnogi'r rhai sy'n cadw ein cenedl yn ddiogel, yn ogystal â'u teuluoedd a chyn-filwyr. Mae canllawiau statudol ar gael ar wefan Gov.uk. Disgrifiwch effeithiau'r cynnig ar gymuned y lluoedd arfog mewn perthynas â'r canlynol:

| **Relevant functions** | **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith – rhowch esboniad** |
|---|---|---|---|
| **Iechyd**<br>• Darparu gwasanaethau<br>• Cynllunio a chyllido<br>• Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol | | | Annhebygol o fod yn effaith |
| **Tai**<br>• Polisi dyrannu ar gyfer tai cymdeithasol<br>• Digartrefedd<br>• Grantiau cyfleusterau i bobl anabl | Mae cyn-filwyr yn tueddu i fod yn bobl hŷn, ac o'r herwydd, mae eu tai yn tueddu i fod yn sefydlog. Mae'r polisi'n helpu i ariannu gwasanaethau digartrefedd, ac mae cyn-filwyr yn tueddu i fod mewn mwy o berygl o ddod yn ddigartref. Nod y polisi yw cynyddu tai fforddiadwy, ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod y polisi'n gweithio. | | Annhebygol o gael effaith ar bersonél sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog – gweler Cashfields isod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Addysg**<br>• Derbyniadau<br>• Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm<br>• Llesiant plant<br>• Trafnidiaeth<br>• Presenoldeb<br>Cymorth anghenion ychwanegol | | | Annhebygol o fod yn effaith. Darperir llety i deuluoedd personél sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar Ystad Cashfields, Hwlffordd. |
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** | | | |
| Mae'r holl uchod yng nghyd-destun aelodau o gymuned y lluoedd arfog yn 2025 yn tueddu i ffafrio cyfraddau ychydig yn is o bremiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi nag unigolion nad ydynt yng nghymuned y lluoedd arfog ar gyfer 2026–2027. Unig breswylfa / prif breswylfa Dim Premiwm: Lluoedd arfog 33%, ddim yn rhan o'r lluoedd arfog 29%. Perchennog ail gartref Dim Premiwm Lluoedd arfog 56%, ddim yn rhan o'r lluoedd arfog 45%.<br><br>Roedd 5% o'r ymatebwyr yn aelod o gymuned y lluoedd arfog (lle'r oedd hyn yn hysbys). | | | |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** | | | |
| | | | |

| **Cymeradwyaeth cyfarwyddwr / pennaeth gwasanaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | Sarah Edwards | | |
| **Teitl y swydd:** | Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Refeniw | | |
| **Llofnod:** | Sarah Edwards | **Dyddiad:** | 30 Mehefin 2026 |